RHYBUDD O GYFARFOD ARBENNIG

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Jonathan Cawley
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffôn: (01766) 770274
E-bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod:	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dyddiad:	Dydd Mercher 11 Tachwedd 2026
Amser:	10.00 y.b.
Man Cyfarfod:	Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod
15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd
Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru
Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.

Awdurdod 11.11.26

RHAGLEN

Rhif
Tudalen

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

2. **Cynllun Dirprwyo Pwyllgorau** 3 - 17
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Copi yma)

Eitem Rhif 2

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	11 Tachwedd 2026
TEITL	**Cynllun Dirprwyo Pwyllgorau**
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Gwneud newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo Pwyllgorau

1. CEFNDIR

1.1 Yn dilyn y papur trafod yn y Gweithgor Aelodau diwethaf ar y 14eg o Hydref 2026, lle ystyriwyd datblygiad grwpiau ac is-bwyllgorau ychwanegol, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r newidiadau arfaethedig sydd eu hangen ar Gynllun Dirprwyo'r Pwyllgor er mwyn galluogi'r Awdurdod i symud ymlaen â'r argymhelliad i sefydlu is-bwyllgor newydd.

1.2 Is-bwyllgor Newid Hinsawdd a Natur

Bydd yr Aelodau yn cofio, gan mai newid yn yr hinsawdd ac adfer natur yw blaenoriaethau pennaf yr Awdurdod, ystyriwyd sefydlu is-bwyllgor pwrpasol yn benodol i symud ymlaen â'r gwaith hwn, a chytunwyd ar hynny.

1.3. Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r cynnig ond nodwyd fod y dirwedd polisi a llywodraethu yn esblygu'n gyflym yn y maes hwn, gan gynnwys datblygiadau ar lefel Llywodraeth Cymru i sefydlu Bwrdd Hinsawdd a Natur. Cytunodd y gweithgor, o ystyried ble mae'r Awdurdod o ran gosod targedau a sefydlu maint yr uchelgais (yn rhannol drwy'r rhai sy'n dod i'r amlwg Cynllun Eryri ond hefyd yn rhannol drwy ddulliau eraill), Roedd angen ystyriaeth bellach ynglŷn â ffurf, aelodaeth a chylch gwaith priodol unrhyw is-bwyllgor o'r fath.

1.4. Yng ngoleuni hyn, ystyrir ei bod yn ddoeth peidio â bwrw ymlaen â diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Pwyllgorau ar hyn o bryd o ran sefydlu'r is-bwyllgor newydd hwn. Bydd oedi'r newidiadau arfaethedig yn caniatáu i Fwrdd Llywodraeth Cymru gael ei sefydlu a Chynllun Eryri gael ei fabwysiadu, gan sicrhau bod unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu yn y dyfodol yn cael eu llywio gan gyfeiriad strategol y cytunwyd arno gan yr Awdurdod a dealltwriaeth glir o rôl, cwmpas a gofynion aelodaeth unrhyw is-bwyllgor yn y dyfodol.

1.5. Bwrdd Prosiect Plas Tan y Bwlch

Er mwyn paratoi ar gyfer canlyniad cais grant Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, – disgwylir canlyniad hwn ym mis Rhagfyr, mae angen sefydlu is-bwyllgor i reoli prosiect datblygu Plas Tan y Bwlch cyn penderfyniad y Loteri fel y gall fod yn weithredol ar unwaith.

1.6. Mae'r is-bwyllgor newydd, y cyfeirir ato fel Bwrdd Prosiect Plas Tan y Bwlch, wedi'i gynnwys yng Nghynllun Dirprwyo'r Awdurdod, ynghyd â'r cylch gorchwyl a'r gofynion

aelodaeth. Mae hyn yn disodli hen Fwrdd Plas Tan y Bwlch, nad yw wedi gweithredu ers peth amser.

1.7 Hefyd, manteisiwyd ar y cyfle i ddiweddaru'r Cynllun Dirprwyo i adlewyrchu newidiadau mewn teitlau swyddi, cyfnodau adrodd ar gyfer rhai is-bwyllgorau, a hefyd i ddileu'r Gynhadledd Ymgynghorol Treftadaeth Ddiwylliannol (Bwrlwm Eryri) nad yw'n bodoli mwyach. Yn ogystal, mae'r union niferoedd aelodaeth ar gyfer cynrychiolaeth yr Undeb ar y Cyd-weithgor Lleol wedi'u dileu, oherwydd bod y cyfansoddiad yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ac nid yw wedi'i gymeradwyo eto.

1.8 Gan fod diwygio'r Cynllun Dirprwyo Pwyllgorau yn newid un o ddogfennau cyfansoddiadol yr Awdurdod, mae'r gofynion a nodir yn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod yn berthnasol, sef, y bydd unrhyw gynnig i ddileu neu amrywio Rheolau Sefydlog, wedi'i gynnig a'i eilio, yn cael ei ohirio tan gyfarfod arferol nesaf yr Awdurdod.

2. GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim goblygiadau adnoddau uniongyrchol i ddiwygio Cynllun Dirprwyo'r Pwyllgor.

3. ARGYMHELLIAD

Bod cynnig i ddiwygio Cynllun Dirprwyo Pwyllgorau, fel y'i manylir yn Atodiad 1, yn cael ei gynnig a'i eilio'n ffurfiol, ac yn unol â Rheolau Sefydlog bydd y cynnig yn cael ei ohirio tan y cynhelir cyfarfod arferol nesaf yr Awdurdod ar y 9fed o Ragfyr 2026 i'w benderfynu yr adeg hynny.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

CYNLLUN DIRPRWYO

Mabwysiadwyd [ ]

CYNLLUN DIRPRWYO

CYFLWYNIAD

1. Mae pwrpasau a dyletswyddau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi'u rhagnodi mewn statud, yn enwedig Deddf yr Amgylchedd 1995, Rhan III. Does dim yn y cynllun hwn sy'n caniatáu unrhyw weithred nad yw o fewn pwerau cyfreithlon Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

2. Yr Awdurdod llawn sydd â chyfrifoldeb sylfaenol dros Swyddogaethau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae wedi dirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau i'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau a'r Swyddogion er mwyn caniatáu i bolisïau gael eu llunio a phenderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym ac yn effeithlon gan Aelodau, ac ar gyfer penderfyniadau rheolaethol a gweithredol gan swyddogion o fewn fframwaith o atebolrwydd i'r Llywodraeth a'r bobl leol. Mae hefyd wedi penodi Gweithgorau a Grŵp Ymgynghorol er mwyn ei gynghori ynghylch ymarfer ei swyddogaethau a Fforymau eraill er mwyn cyd-gysylltu â'r gymuned a chyrff sydd â diddordeb mewn materion sydd a wnelo â rheoli'r Parc Cenedlaethol.

3. Yn gyffredinol, fe ddylid gweithredu'r cynllun fel ei fod yn osgoi dyblygu'r gwaith o ddelio â busnes. Byddai'n anarferol i Bwyllgor neu Is-bwyllgor gyfeirio penderfyniadau ar i fyny yn hytrach na chymryd penderfyniadau ac adrodd yn eu cylch mewn cofnodion fel rhan o raglen cyfarfod nesaf yr Awdurdod pan fo ganddynt y pŵer i wneud penderfyniadau.

4. Dirprwyir yn sylweddol bwerau i ganiatáu gwariant neu godi incwm ar gyfer pwrpasau a gymeradwywyd, o fewn polisi a chyllideb, ond maent yn destun rheolaeth lem gan y Rheoliadau Ariannol a Chyfarwyddyd Cyllid.

5. Mae'r cyfeiriadau a wneir yn y cynllun hwn at ddarpariaethau statudol yn cynnwys unrhyw gyfaddasiadau statudol a wneir wedi hynny neu ail-ymddeddfiad o'r darpariaethau hynny.

PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD

CYLCH GORCHWYL

1. Ymarfer pwerau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol wrth gyflawni'r swyddogaethau sydd a wnelo â Chynllunio Gwlad a Thref a roddwyd iddo gan ddeddfwriaethau ac yn gyffredinol fel awdurdod cynllunio lleol.

2. Ymateb i ymgynghoriadau ar faterion sy'n ymwneud â rôl yr Awdurdod fel awdurdod cynllunio lleol.

3. Ystyried ac adrodd i'r Awdurdod ar unrhyw fater y gall yr Awdurdod gyfeirio at y Pwyllgor o bryd i'w gilydd.

4. Adolygu a chynghori Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn perthynas â gweithrediad y Gwasanaeth Cynllunio, a phenderfynu ar faterion sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw ac eithrio lle mae goblygiadau ariannol iddynt lle nad oes darpariaeth gyllidol ar eu cyfer yn bodoli'n barod, neu pan fo'r pŵer i wneud y penderfyniad yn nwylo'r Awdurdod, ei Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau neu Bwyllgor Safonau.

5. Ymarfer pwerau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol mewn perthynas â holl swyddogaethau'r Awdurdod fel Awdurdod Mynediad yn unol â darpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a phenderfynu ar faterion sy'n berthnasol i'r swyddogaeth honno heblaw lle mae'n golygu goblygiadau o ran adnoddau pan nad oes darpariaeth cyllideb ar ei gyfer yn bodoli'n barod, neu pan fo'r pŵer i wneud y penderfyniad gyda'r Awdurdod neu ei Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

6. I'r Pwyllgor benderfynu ar unrhyw gwestiwn yr ystyrir gan y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol), wedi iddo ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, iddo fod yn fater o natur digon brys fel ei fod angen penderfyniad buan, er nad yw'n ddigon pwysig i gyfiawnhau galw ynghyd gyfarfod arbennig o'r Awdurdod, bydd penderfyniadau o'r fath os nad ydynt yn fater dibwys neu sy'n rhan o'r drefn arferol, i'w adrodd i'r Awdurdod wedi hynny.

Aelodaeth

Holl Aelodau'r Awdurdod

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU

CYLCH GORCHWYL

Ariannol

1. Ystyried a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynglŷn â chlustnodi adnoddau a blaenoriaethau yn y gyllideb.

2. Pan nad yw trosglwyddiadau arian o'r fath yn cael eu dirprwyo i swyddogion trwy gyfrwng Rheolau Sefydlog Ariannol, i awdurdodi trosglwyddiadau hyd at gyfanswm agregedig o £70,000 ar unrhyw fater / cais unigol.

3. Awdurdodi ataliad neu ildiad o ofynion y Rheolau Sefydlog sy'n Berthnasol i Gontractau parthed unrhyw gontract neu fater unigol.

Llesiant a Datblygu Cynaliadwy

4. O bryd i'w gilydd mae'r Awdurdod yn gosod amcanion llesiant sy'n sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf tuag at gyflawni'r nodau llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y nodau llesiant yw:

   i. Cymru lewyrchus
   ii. Cymru gydnerth
   iii. Cymru iachach
   iv. Cymru sy'n fwy cyfartal
   v. Cymru o gymunedau cydlynus
   vi. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
   vii. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

   Mae'n rhaid i unrhyw gamau a gymerir i gyflawni amcanion llesiant yr Awdurdod gael eu gwneud mewn ffordd gynaliadwy sy'n defnyddio pum gofyniad allweddol yr egwyddor datblygu cynaliadwy sef:

   i. Hirdymor
   ii. Integreiddio
   iii. Cynnwys
   iv. Cydweithio
   v. Atal

5. Bydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn monitro cynnydd ac yn goruchwylio gweithrediad amcanion llesiant yr Awdurdod. Yn anad dim, bydd yn sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant ac unrhyw gamau a gymerir yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gwneir hyn drwy ystyried ac argymell ynghylch:

   (a) Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol.
   (b) Cyflawni Rhaglenni Gwaith Corfforaethol.
   (c) Perfformiad meysydd gwasanaeth yn erbyn targedau a nodau sefydledig.

6. ~~Goruchwylio gweithrediad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 o fewn yr Awdurdod trwy'r hyn a ganlyn:~~

   ~~i. Adolygu'r trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth ymgymryd â swyddogaethau'r Awdurdod.~~

~~ii. Adolygu perfformiad, cadw llygad ar welliannau dros amser a chymeradwyo a goruchwylio cynlluniau gweithredu sy'n deillio o'r angen i sicrhau gwelliant parhaus.~~

~~iii. Ystyried a gwneud argymhellion ynghylch yr hyn a ganlyn:~~

~~(a) Cynnwys a ffurf y Cynllun Busnes a Gwelliant a'r Adroddiad Blynyddol~~
~~(b) Cyflawni cynlluniau Gwaith Corfforaethol~~
~~(c) Dangosyddion perfformiad a thargedau ar gyfer yr Awdurdod~~
~~(d) Perfformiad meysydd Gwasanaeth yn erbyn targedau a nodau a sefydlwyd~~

7. Ystyried / ymateb i adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

Staff:

8.
i. Sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau dynol
ii. Paratoi a mabwysiadu polisïau, canllawiau a strategaethau mewn perthynas â staff a
materion cysylltiadau diwydiannol
iii. Cymeradwyo newidiadau i strwythur staff yr Awdurdod ar Lefel Penaethiaid Gwasanaeth ac is na hynny.
iv. Paratoi rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer swyddi'r Prif Weithredwr a Lefel Cyfarwyddwyr a chymeradwyo trefniadau ar gyfer penodi aelodau eraill o staff.
v. Cyn belled nad yw'r pwerau hyn yn cael eu dirprwyo i swyddogion, i arfer pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod parthed recriwtio, hyfforddi, trosglwyddo, diswyddo, dyrchafu, graddio, pennu graddfeydd cyflog a thelerau cyflogaeth cyflogeion; pennu niferoedd a graddfeydd yr holl staff; gweithredu cyflogau, gwobrwyon neu amodau o weithred o ganlyniad mewn perthynas â chyflogeion nad effeithir yn uniongyrchol arnynt gan wobr.

9. Sicrhau bod yr Awdurdod yn ymgymryd â'i ddyletswyddau i'w gyflogeion yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio 1974, a'r Rheoliadau dilynol a wnaed o dan y Ddeddf, mewn perthynas â datganiadau o bolisi diogelwch, cynrychiolwyr diogelwch a chyswllt.

10. Ymarfer y pwerau a'r dyletswyddau sydd wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod mewn perthynas â Chynllun Pensiynau Llywodraeth Leol.

Eiddo

11. Gweithredu ar ran yr Awdurdod mewn perthynas â gwaredu â, neu gaffael, eiddo, rhoi neu gymryd prydlesau, trwyddedau, neu hawddfreintiau pan nad yw gwerth y budd a drosglwyddwyd ac a gafwyd neu a gyfnewidiwyd ddim yn uwch na'r canlynol:

i. Taliad Cyfalaf - £30,000
ii. Rhent - £5,000 y.f.

12. Gweithredu ar ran yr Awdurdod wrth wneud ceisiadau cynllunio ar ran yr Awdurdod.

Plas Tan y Bwlch

13. Ystyried adroddiadau cyfnodol gan Fwrdd Prosiect Plas Tan y Bwlch.

Cyffredinol

14. Ystyried / ymateb i adroddiadau gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

15. Adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer yr Awdurdod (gan gynnwys pob agwedd ar dechnoleg gwybodaeth) a gweithredu yswiriant.

16. Gweithredu ar ran yr Awdurdod wrth sefydlu polisïau codi tâl a'r graddau y gwneir taliadau am Wasanaethau'r Awdurdod.

17. Gosod rhaglen waith flynyddol ar gyfer y Gweithgor Aelodau.

18. I'r Pwyllgor benderfynu ar unrhyw gwestiwn y mae'r Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol), wedi iddo ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, yn ystyried ei fod yn fater o natur digon brys fel ei fod angen penderfyniad buan, er nad yw'n ddigon pwysig i gyfiawnhau galw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod, bydd penderfyniadau o'r fath os nad ydynt yn fater dibwys neu sy'n rhan o'r drefn arferol, i'w adrodd i'r Awdurdod wedi hynny.

Aelodaeth

Holl Aelodau'r Awdurdod

PANEL APELIADAU GRADDIO STATWS SENGL

CYLCH GORCHWYL

Penderfynu ar apeliadau graddio sy'n codi o Strwythur Tâl a Graddio'r Awdurdod.

Aelodaeth

Aelodau*	3
Aelodau Dirprwyol*	2
Prif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaeth	1
Cynrychiolwyr Undebau Llafur	1

Bydd y Panel yn cael ei gynghori gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ~~a Chyfreithiol~~

*Dylid dethol aelodau o'r Pwyllgor Safonau a chael eu dewis gan y pwyllgor hwnnw.

Wrth benodi aelodau i'r Panel bydd y Pwyllgor Safonau yn talu sylw i'r angen am gynrychiolaeth briodol o ran rhyw.

Bydd angen i bob un o Aelodau'r Panel fod wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol sy'n ymwneud â System Tâl a Graddio'r NJC cyn gwrando ar apêl.

PWYLLGOR SAFONAU

CYLCH GORCHWYL

Swyddogaethau Cyffredinol

1. Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod.

2. Cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod i ufuddhau i god ymddygiad yr Awdurdod.

Swyddogaethau Penodol y Pwyllgor Safonau

3. Cynghori'r Awdurdod ynghylch mabwysiadu neu adolygu codau ymddygiad yr Awdurdod.

4. Monitro gweithrediad codau ymddygiad yr Awdurdod.

5. Cynghori ar hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod ar faterion sy'n ymwneud â chodau ymddygiad yr Awdurdod.

6. Ystyried a phenderfynu pan fo hynny'n briodol ar faterion sy'n cael eu cyfeirio ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

7. Ystyried Cwynion yn erbyn Aelodau ac Aelodau cyfetholedig.

8. Rhoi gollyngiadau yn unol ag Adran 81(4)(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Rheoliadau a wneir dan y ddeddf honno i aelodau neu aelodau cyfetholedig sydd â diddordeb personol mewn unrhyw fusnes yr Awdurdod.

9. Awdurdodi taliadau gan y Swyddog Monitro o lwfansau a threuliau i bersonau sydd wedi cynorthwyo ag ymchwiliad gan y Swyddog Monitro.

10. Sefydlu'r weithdrefn ar gyfer penderfynu cwynion sy'n cael eu cyfeirio ato i'w hystyried.

Swyddogaethau Staff

11. Ystyried apêl yn erbyn penderfyniad disgyblaethol.

12. Ystyried cwyn yn unol â'r Drefn Gwyno.

13. Ystyried apêl yn erbyn sut y cymhwysir neu y dehonglir yr amodau gwasanaeth.

Aelodaeth

2 Awdurdod Lleol
1 Llywodraeth ~~Cynulliad~~ Cymru
3 Annibynnol

Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i'w penodi o blith yr Aelodau Annibynnol.

BWRDD PROSIECT PLAS TAN Y BWLCH

CYLCH GORCHWYL

~~1. Rhoi cyngor a chymorth i swyddogion.~~

~~2. Adrodd yn gyfnodol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y meysydd a ganlyn:~~

~~i. Gweithredu'r Strategaeth Gyllideb fel sy'n berthnasol i Blas Tan y Bwlch.~~
~~ii. Mudo i fodel busnes cynaliadwy.~~
~~iii. Ystyried heriau'r dyfodol a darparu cyfeiriad strategol ar gyfer Plas Tan y Bwlch.~~
~~iv. Ystyried penodi arbenigwyr yn ôl yr angen i ymdrin â materion neu broblemau allweddol.~~
~~v. Gosod taliadau ar gyfer cyrsiau a gweithgareddau ym Mhlas Tan y Bwlch.~~
~~vi. Darparu mewnbwn a chymeradwyo'r rhaglen flynyddol o gyrsiau a'r rhaglen waith ym Mhlas Tan y Bwlch.~~
~~vii. Awdurdodi ceisiadau am grantiau a chymorth ariannol ar gyfer Plas Tan y Bwlch lle nad yw cyfanswm gwerth gros y prosiect yn fwy na £50,000.~~

~~Aelodaeth~~

~~3 Aelodau Awdurdod~~
~~Prif Weithredwr~~
~~Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol~~
~~Pennaeth Busnes~~

Bydd Bwrdd Prosiect Plas Tan y Bwlch yn darparu cyngor a chymorth ac yn adrodd o bryd i'w gilydd i'r Awdurdod ar y meysydd canlynol:

1. Derbyn adroddiadau ariannol / cyllidebol, a goruchwylio, cynghori, craffu a gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant y prosiect.
2. Derbyn adroddiadau ar gofrestr risg y prosiect a goruchwylio a chynghori ar reoli risg y prosiect.
3. Derbyn adroddiadau ar amserlen y prosiect a goruchwylio a chynghori ar gynnydd yn unol â'r amserlen a cherrig filltir allweddol.
4. Derbyn adroddiadau gan arbenigwyr dan gontract sy'n gweithio ar y prosiect, e.e. Penseiri, Artist Preswyl.
5. Derbyn unrhyw adroddiadau/eitemau/cyflwyniadau perthnasol eraill a fydd yn codi yn ystod cyfnod y prosiect.

Aelodaeth:
1. Chwe Aelod
2. Y Prif Weithredwr
3. Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
4. Cyfarwyddwr Rheoli Tir
5. Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau
6. Rheolwr y Prosiect

CYD WEITHGOR LLEOL

CYLCH GORCHWYL

1. Hyrwyddo cydberthynas ddiwydiannol dda o fewn yr Awdurdod.

2. Gweithredu fel fforwm ymgynghorol i drafod materion sy'n ymwneud â pholisi staff.

3. Gweithredu fel Cyd-fforwm Diogelwch yr Awdurdod yn unol â darpariaethau Deddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio 1974

Aelodaeth

3 Awdurdod Lleol
1 Llywodraeth ~~Cynulliad~~ Cymru

~~4 Cynrychiolydd o'r Undebau Llafur a ddosrannwyd yn unol â Chyfansoddiad y Gweithgor.~~

Bydd seddi ar y Cyd Weithgor yn cael eu dyrannu i gynrychiolwyr undebau llafur yn unol â'r trefniadau a nodir yng Nghyfansoddiad y Grŵp Gweithio.

Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ~~a Chyfreithiol~~
Pennaeth ~~Personél~~ Adnoddau Dynol

GWEITHGOR AELODAU

CYLCH GORCHWYL

Bydd y grŵp yn ymgymryd â'r swyddogaethau a ganlyn:

1. Cynghori ynghylch llunio polisïau.

2. Cynghori ynghylch prosiectau a mentrau arfaethedig.

3. Cynghori ar faterion gwelliant gwasanaeth.

4. Paratoi adroddiadau ac argymhellion ar unrhyw fater a gafodd eu cyfeirio at y Gweithgor fel Grŵp Tasg a Gorffen gan yr Awdurdod neu unrhyw un o Bwyllgorau'r Awdurdod.

5. O fewn eu cylch gorchwyl, hyrwyddo a chynghori ar weithredu a chyflawni egwyddorion datblygiad cynaliadwy a chynhwysiad cymdeithasol ar draws ystod gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Rôl y Gweithgorau fydd gweithredu mewn dull trawstoriadol gan gynnwys y Cyfarwyddiaethau / Gwasanaethau perthnasol wrth iddynt ystyried materion a chynigion. Bydd rhaglen waith ar gyfer y Gweithgor Aelodau'n cael ei chymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Aelodaeth
Holl Aelodau'r Awdurdod.

CYNHADLEDD GYNGHOROL CELYN, TEGID A THRYWERYN

CYLCH GORCHWYL

Gweithredu fel fforwm ar gyfer cysylltu ac ymgynghori ynglŷn â datblygu a rheoli dalgylch Celyn, Tegid a Thryweryn.

Aelodaeth

4 Aelod o'r Awdurdod:

3 Awdurdod Lleol
1 Llywodraeth Cynulliad Cymru

Swyddogion Perthnasol

Cynrychiolaeth o gyrff lleol, sefydliadau cynrychiolaethol, defnyddwyr a pherchnogion tir sydd am y ffin â'r glannau.

Bydd y Gynhadledd yn cyfarfod ~~unwaith y flwyddyn.~~ fel bo'r angen.

~~CYNHADLEDD GYNGHOROL TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL (BWRLWM ERYRI)~~

~~CYLCH GORCHWYL~~

~~Gweithredu fel fforwm i gysylltu, ymgynghori a chyfnewid gwybodaeth rhwng grwpiau sydd â diddordeb ynglŷn â gwarchod, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri.~~

~~Aelodaeth~~

~~4 Aelod o'r Awdurdod:~~

~~3 Awdurdod Lleol~~
~~1 Llywodraeth Cynulliad Cymru~~

~~Swyddogion Perthnasol~~

~~Cynrychiolwyr o Gyrff Statudol, Cynghorau Sir, cyrff addysg, sefydliadau ymchwil a grwpiau eraill sy'n ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol Eryri.~~

~~Bydd y Gynhadledd yn cyfarfod unwaith y flwyddyn.~~